**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scott Waddington
Cadeirydd
Trafnidiaeth Cymru
3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH

21 Mai 2025

Annwyl Scott

**Y cylch gwaith ar gyfer Rhwydwaith y Gogledd**

Yn dilyn gwaith Trafnidiaeth Cymru dros y ddeufis diwethaf i ddatblygu rhaglen Rhwydwaith y Gogledd, dyma lythyr i bennu'r cylch gwaith i TrC roi'r weledigaeth ar gyfer Rhwydwaith y Gogledd ar waith. Dylid ystyried y llythyr hwn fel atodiad i gylch gwaith TrC ar gyfer 2022 i 2027.

Bydd Rhwydwaith y Gogledd yn gwella'r drafnidiaeth gyhoeddus ym mhob rhan o'r Gogledd. Dylai adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud ar fetro'r Gogledd hyd yma, a neilltuo adnoddau ychwanegol a chodi'r uchelgais ar gyfer gweledigaeth lawer mwy tymor hwy. Canolbwynt y rhaglen fydd metro'r Gogledd, fydd yn trawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus ardal Mersi-Dyfrdwy ar draws ffiniau, gan gynnwys gwasanaethau 'metroaidd' ar brif lein y Gogledd a chysylltiad rheilffordd uniongyrchol newydd rhwng Wrecsam a Lerpwl. Dylai'r weledigaeth hon fod yn brif flaenoriaeth i TrC.

Hoffwn i TrC barhau i redeg Bwrdd Rhwydwaith y Gogledd, a fydd yn cyfarfod o leiaf bob dau fis i oruchwylio'r gwaith a herio TrC a Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â'r Bwrdd, hoffwn i TrC arwain y trafod strategol trawsffiniol am y rhaglen, i'w hyrwyddo a sicrhau ei bod yn integreiddio â chynlluniau trafnidiaeth eraill yn y rhanbarth. Yn dilyn yr uwchgynhadledd ar drafnidiaeth gyhoeddus, hoffwn hefyd lansio ymgynghoriad â'r cyhoedd, a fydd yn llywio'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y rhaglen. Dylai'r trafod trawsffiniol fod yn rhan ganolog o hyn.

Yn ogystal â chreu gweledigaeth hirdymor ddeniadol, dros y 12 mis nesaf mae angen i ni gymryd camau breision i brysuro'r gwaith.

Bydd hyn yn cynnwys dod â'r cynlluniau i wella amserlen 50% o'r gwasanaethau ar brif lein y Gogledd ymlaen i fis Mai 2026, gan gynnwys gwasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac estyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno (gan arwain at wasanaeth pedwar trên yr awr rhwng Cyffordd Llandudno a Chaer yn yr oriau pan fydd gwasanaeth Avanti West Coast yn rhedeg). Mae hefyd yn cynnwys dyblu'r trenau rhwng Wrecsam a Chaer i 2 drên yr awr o fis Rhagfyr 2025.

Rwyf wedi neilltuo £13.6m o gyfalaf i Rwydwaith y Gogledd fel rhan o'r cymorth ariannol a ddarperir i TrC yn 2025-26. Yn unol â phenderfyniadau Bwrdd Rhwydwaith y Gogledd, hoffwn i hyn ganolbwyntio ar:

- Gerbydau ychwanegol i ganiatáu 2 drên yr awr rhwng Wrecsam a Chaer a gwelliannau eraill i'r gwasanaeth, gan gynnwys symud yn nes at 2 drên yr awr rhwng Wrecsam a Bidston
- Seilwaith newydd i ganiatáu Talu Wrth Fynd yn y Gogledd.
- Atebion dros dro yn sgil cau croesfannau er mwyn gallu gwella'r amserlen ym mis Mai 2026 ar brif lein y Gogledd.
- Gwaith i wella gorsaf Shotton.
- Ystyried creu gorsaf dros dro ym Mharcffordd Diwydiannol Glannau Dyrdwy a bwrw ymlaen ar fyrder i gael hyd i ateb parhaol.
- Datblygu cynlluniau ar draws y rhaglen.
- Cyllid penodol i ddatblygu gwaith trydaneiddio – gan ddefnyddio'r gwersi a'r arloesedd a ddatblygwyd trwy drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd.
- Treialu'r gwasanaeth bws T13 newydd.

Er y dylai'r gyllideb ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn i ddechrau, caniateir hyblygrwydd i symud yr arian i flaenoriaethau eraill Rhwydwaith y Gogledd wrth iddynt godi, cyn belled â bod Bwrdd Rhwydwaith y Gogledd yn cael parhau i gadw golwg arnyn nhw. Yn ogystal, hoffwn i TrC ddatblygu piblinell o gynigion eraill y gellir eu cyllido os daw rhagor o gyllid.

Hoffwn i TrC dalu am y costau refeniw sy'n gysylltiedig â cherbydau newydd trwy gyllideb bresennol Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd o £381.15m. Gallaf hefyd gadarnhau fy mod yn barod i gynnig arian cyfatebol oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Mynediad i Bawb yn Shotton a Rhiwabon os bydd Llywodraeth y DU yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynlluniau.

Hoffwn dderbyn adroddiadau rheolaidd ar hynt y rhaglen hon.

Rwy'n ddiolchgar am agwedd gadarnhaol a chreadigol TrC at ddatblygu rhaglen Rhwydwaith y Gogledd, ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i wneud gwahaniaeth parhaol i drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Cabinet Secretary for Transport and North Wales